# Ysgol y Bannau


gan Marion Evans, Pennaeth

## Ffilmio Bendibwmbwls

Cawsom ddiwrnod bendigedig , llawn cyffro yng nghwmni Ben Dant ac Elin wrth iddyn nhw ffilmio rhaglen Bendibwmbwls yma yn Ysgol y Bannau. Roedd y plant wrth eu boddau! Am ddiwrnod bythgofiadwy i'n plant ym mlwyddyn 2 a 3. Rydym yn edrych ymlaen i wylio'r rhaglen ym mis Hydref.







## Diwrnod Celtiaid



Cafodd Blwyddyn 2 a 3 ddiwrnod bendigedig wrth dreulio diwrnod yn oes y Celtiaid yn ein ardal wyllt. Cafon nhw'r cyfle i gogino Cawl Celtaidd, creu gemwaith patrwm trisgell, peintio patrymau celtaidd ar eu gwynebau a'u dwylo, cael brwydr rhwng y llwythi a gwrando ar stori am Cadi a'r Celtiaid. Roedd y plant wrth eu boddau ac roedd eu brwdfrydedd a'u hymddygiad yn ardderchog! Roedd hi'n blesur bod yn eu cwmni!



## *Pencampwyr Rhanbarthol Cwis dim Clem*

Llongyfarchiadau enfawr i Reuben, Calon, Llewelyn, Trystan Dafydd ac Eleri am ennill y rownd gyntaf a'r rownd rhanbarthol o 'Cwis dim Clem' ac am gystadlu'n frwd yn y rownd genedlaethol!



## *Gweithdy creu stori gyda Sion Tomos Owen, bardd plant Cymru*

Aeth blwyddyn 6 am dro lawr i'r Gaer, ble cawsant weithdŷ gyda Sion Tomos Owen. Cawsant hwyl yn creu cymeriad allan o sgwigl, creu enw cymeriad newydd drwy defnyddio eu henwau eu hunain ac yna, creu stori i gyd fynd a'u cymeriadau. Diolch o galon i Trish o wasanaethau'r llyfrgell am drefnu yr ymweliad i ni.





## Eisteddfod Ysgol

Cawsom Eisteddfod Ysgol gwych eto eleni gyda cystadlu brwd. Llongyfarchiadau gwresog i Llewelyn, ennillydd cadair yr Eisteddfod ysgol. Llongyfarchiadau hefyd i Eleri a ddaeth yn ail, ac i Liliwen a Harri a ddaeth yn drydydd.